
# Harbwr Diogel 4
# Calm Waters 4



## Gwybodaeth

## Information

www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion

# Harbwr Diogel 4

**Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yn atyniadau ac adnoddau gwych o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, deniadol a dymunol i bawb rydym yn atgoffa defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.**



### Cofiwch:

1. Fod yn ystyriol a pharchus bob amser o holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
2. Bod yn ystyriol a pharchus bob amser o fywyd gwyllt lleol, a'i werthfawrogi.
3. Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys offer angori, cadwyni, rhaffau, angorau a dyfeisiau angori eraill.  Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
4. Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio ac olew gwastraff.
5. Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau a chyfarpar pysgota arall.
6. Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych neu wlyb yr harbyrau. Mewn
7. argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
8. Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
9. Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw ddiffyg neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohono yn yr harbyrau.
10. Cysylltu â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

**Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.**

- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau,
- Cyrsiau a Phellteroedd Morol,
- Tablau Llanw Lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr, a Diogelwch

Gellir cael y wybodaeth uchod yn: [Yr Arfordir a Phorthladdoedd]

**Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon i gyd a gwneud yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hynny bob amser. Gall y dogfennau hyn gael eu diweddaru ac felly dylid eu gwirio yn rheolaidd.**

**Diweddariadau:**

**(1) Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Harbyrau.**

Mae strwythur adolygedig o'r Gwasanaeth Harbyrau wedi'i ddatblygu.

Bwriedir i rywfaint o ailstrwythuro, sydd wedi'i gymeradwyo drwy'r prosesau corfforaethol, wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn adlewyrchu anghenion y gwasanaeth, a'u diwallu drwy roi mwy o gydnerthedd tra'n cynnal presenoldeb gweladwy yn yr harbyrau.

Rheolwr Harbyrau (Llawnamser - Parhaol).

Arweinydd Gwaith yr Harbyrau (Llawnamser - Parhaol).

Cynorthwyydd Harbyrau x 2 (Tymhorol: Ebrill - Medi).

Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi gwag Arweinydd Gwaith yr Harbyrau a Chynorthwyydd Harbyrau yn cael eu postio ar wefan y Cyngor cyn bo hir. Anogir unrhyw un â diddordeb mewn gweithio yn y Gwasanaeth Harbyrau i ymgeisio.

**(2) Cyfarfodydd y Pwyllgor Defnyddwyr Harbyrau.**

Bydd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Defnyddwyr Harbyrau yn cael eu cynnal **16 Mawrth 2023** ar yr amserau canlynol; fe'u cynhelir yn rhithiol ar Zoom.

17:30 Aberaeron
18:15 Cei Newydd
19:00 Aberystwyth

Er bod y Pwyllgorau yn rhoi cyfle i drafod materion, mae nifer o ffyrdd eraill y gall rhanddeiliaid gysylltu â'r Gwasanaeth Harbyrau trwy gydol y flwyddyn ynghylch materion dydd i ddydd, gan gynnwys cwrdd wyneb yn wyneb yn yr Harbyrau neu drwy Clic – clic@ceredigion.gov.uk / 01545 570881.

**(3) Cynlluniau Rheoli Gwastraff Porthladdoedd.**

Er bod rhywfaint o seilwaith a chyfleusterau Cynlluniau Rheoli Gwastraff Porthladdoedd wedi'u sefydlu, mae'r Tîm Gwasanaethau Harbyrau yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor i roi darnau olaf y seilwaith yn eu lle cyn gynted â phosibl. Bydd y Cyngor yn cysylltu â'r defnyddwyr harbyrau pan fydd y Cynllun yn gwbl weithredol gyda chanllawiau a rheolau ar sut i ddefnyddio'r cyfleusterau newydd.

**(4) Ardal Ddynodedig ar gyfer Storio Potiau a Chyfarpar Pysgota Dros Dro – Cei Newydd.**

Mae rhan uchel Harbwr Cei Newydd wedi'i hailchwistrellu a'i rhannu'n gyfartal ymysg defnyddwyr pysgota masnachol. Diben yr ardal o hyd yw rhoi lle dros dro i bysgotwyr masnachol storio potiau ac offer pysgota arall yn y cyfnod interim neu lwytho, gwacáu a glanhau wedi hynny yn unig.

Bydd y Tîm Harbyrau yn cysylltu â CADW a swyddogion eraill y Cyngor er mwyn gosod arwyddion i nodi'r uchod.



*Rhan uchel y pier yn Harbwr Cei Newydd.*

**(5) Stand Cyfarpar/Byrddau/Rac Ceufadau – Cei Newydd.**

Bydd gofyn clirio'r Stand Cyfarpar/Byrddau/Rac Ceufadau yn Harbwr Cei Newydd ar gyfer mis Ebrill er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw. Caiff unrhyw geufadau/byrddau a adewir ar y rac neu yn yr ardal gyfagos eu symud oddi yno.

**(6) Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion ac Ymgynghoriad.**

Mae'r Polisi presennol wedi'i adolygu a bydd yn mynd i ymgynghoriad cyn bo hir. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd cyfnod pan y gellir ystyried unrhyw adborth cyn i'r Polisi gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, a'r Cabinet wedi hynny i'w gymeradwyo.

**(7) Cynllun Amddiffyn yr Arfordir - Aberaeron.**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn falch o gadarnhau y cafwyd y drwydded forol a'r caniatâd cynllunio angenrheidiol gan randdeiliaid allweddol i gyflawni'r gwaith gwella ar yr amddiffynfeydd arfordirol ar hyd traeth y de a harbwr Aberaeron.

Mae'r broses dendro a chaffael ar waith ar hyn o bryd i gael contractwr addas i wneud y gwaith angenrheidiol. Tan y bydd contract yn cael ei ddyfarnu ac y ceir trafodaethau gyda'r contractwr llwyddiannus wedi hynny, ni allwn gadarnhau dyddiad cychwyn ar y gwaith ar hyn o bryd. Bydd y Tîm Amddiffyn yr Arfordir yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Harbyrau ac yn rhoi diweddariadau pan a phryd y bo'n bosibl.

**(8) Cynnal a Chadw Harbyrau.**

Yn dilyn y gwaith carthu llwyddiannus a wnaed ym mhob un o'r harbyrau y llynedd, mae'r Gwasanaeth Harbyrau wedi trefnu bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud ar y prif gadwyni yn ogystal â thynnu unrhyw weddillion/rhwystrau yn Harbyrau Aberaeron a Chei Newydd.  Trefnwyd bod y gwaith yn cael ei wneud yn ystod llanw'r gwanwyn ddiwedd Mawrth.  Anfonir Hysbysiad Lleol i Forwyr cyn gynted ag y bydd y dyddiadau wedi'u cadarnhau.



*Diwedd y Pier yng Nghei Newydd*

Gwnaed gwaith atgyweirio i ben Pier Cei Newydd yn ddiweddar cyn y tymor sydd i ddod.

Mae Tîm yr Harbwr yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Cynnal a Chadw'r Tiroedd i docio a chynnal y gordyfiant ym maes parcio Tan y Cae cyn y tymor sydd i ddod.

Bydd y Tîm Gwasanaeth Harbyrau yn glanhau'r grid sychu yn Harbwr Aberystwyth cyn gynted â phosibl.

**(9)  Iechyd a Diogelwch – Cyfrifoldeb ar Bawb.**

Mae harbyrau yn fannau gwaith ac amgylcheddau a ddefnyddir ar y cyd. Mae'r Gwasanaeth Harbyrau bob amser yn ceisio cefnogi a hwyluso defnydd diogel ohonynt cyn belled ag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol bosibl. Mae Iechyd a Diogelwch yn gyfrifoldeb ar bawb ac o'r herwydd rydym yn diolch i bob rhanddeiliad am feithrin dulliau gweithredu ac agweddau rhagweithiol a chadarnhaol tuag at gynnal yr harbyrau fel mannau pleserus a diogel i'w defnyddio ac ymweld â nhw.

**(10) Tystysgrif Harbwrfeistr y DU**

Mae Owen Morgan, Rheolwr Harbyrau wedi dod yn aelod o Gymdeithas Harbwrfeistri y DU ac ar hyn o bryd yn astudio i ennill Tystysgrif Harbwrfeistr y DU a ddarperir gan Port Training Ltd.  Caiff y dystysgrif ei chydnabod gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) a bydd yn cefnogi Owen yn ei waith o ddydd i ddydd.

**(11) Prosiect Ramp Cei Newydd**

Mae gweithredwyr masnachol lleol wedi dod at ei gilydd i ddylunio ac ariannu ramp a fydd yn cael ei defnyddio i fynd ar gwch a dod oddi arno yn Harbwr Cei Newydd. Bydd y ramp yn cael ei defnyddio yn ystod llanw isel y gwanwyn pan nad yw'n bosibl cael mynediad i'r Pier.  Bydd y prosiect yn esiampl i harbyrau eraill sy'n wynebu'r un broblem a bydd yn gwella safonau iechyd a diogelwch.

**(12) Cymorthfeydd Harbyrau**

Yng nghyfarfod diwethaf y Defnyddwyr Harbyrau, cytunwyd y byddid yn cynnal cyfarfodydd wedi'u trefnu ar ffurf cymorthfeydd ym mhob Harbwr fel y gall defnyddwyr harbyrau drafod unrhyw fater neu bryder gyda'r Rheolwr Harbyrau (neu Arweinydd Gwaith yr Harbyrau yn ei absenoldeb), a hynny wyneb yn wyneb.

Cynhelir y cymorthfeydd ym mhob swyddfa'r harbwr, ar wahân i fisoedd Hydref a Mawrth, fel a ganlyn:

Aberystwyth: Dydd Mawrth diwethaf pob mis am 14:00.
Aberaeron – Dydd Mercher diwethaf pob mis am 14:00.
Cei Newydd – Dydd Iau diwethaf pob mis am 14:00.


**Adborth.**

Rydym bob amser yn croesawu ac annog adborth adeiladol gan randdeiliaid. Cysylltwch â ni ar **e-bost drwy clic@ceredigion.gov.uk neu drwy ffonio 01545 570881.**

**Gyda diolch, y Tîm Harbyrau**

*Owen Morgan MNI, Rheolwr Harbyrau*

*Mervyn Jones, Cynorthwyydd Harbyrau Tymhorol*



*Owen Morgan*



*Mervyn Jones*

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Harbwr Diogel 4

## Calm Waters 4




www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion